# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Llwyndyrys**

**Cartref Preswyl Llwyndyrys**
**Llechryd**
**Aberteifi**
**SA43 2QP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Llwyndyrys

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Llwyndyrys Residential Home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 26 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15.11.2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae gan Gartref Preswyl Llwyndyrys tîm craidd o staff sefydledig sy'n adnabod y bobl yn dda. Mae rheolwr ac arweinydd clinigol wedi'u cyflogi ac mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn gysylltiedig â'r gwaith o redeg y cartref o ddydd i ddydd.

Rhoddir gofal a chymorth i'r bobl er mwyn eu galluogi i sicrhau'r iechyd a'r llesiant gorau posibl. Mae'r staff yn galluogi'r bobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r gweithgareddau a ddarperir yn rhagorol gyda naws naturiol yn y cartref ac o'i amgylch. Mae'r ddogfennaeth gofal yn glir, cyfredol a chywir. Caiff cynlluniau personol eu hadolygu ac mae dogfennaeth gofal y bobl yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cyfeirio at deuluoedd y bobl a'u hanes cymdeithasol a gwaith. Gall y gweithwyr gofal gael gafael ar y wybodaeth hon a chaiff hyn ei adlewyrchu wrth iddynt ddarparu gofal.

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r cartref a'r ardal awyr agored, gyda chynlluniau parhaus ar waith fel rhan o gynllun gwella parhaus. Mae'r cartref yn groesawgar ac mae'r tiroedd yn estyniad o'r cartref ac yn hygyrch iawn i bawb. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu tŷ haf sy'n hwyluso gweithgareddau a man tawel.

Caiff y staff eu recriwtio a'u cefnogi gyda hyfforddiant a goruchwyliaeth unigol yn ôl y gofyn.

Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith sy'n llywio'r ymgyrch i wella'r cartref a'r gwasanaeth a ddarperir i'r bobl. Mae'n hawdd cael gafael ar yr Unigolyn Cyfrifol ac mae'n cwblhau'r prosesau sicrhau ansawdd gofynnol.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae'r staff yn gwrtais a charedig ac yn adnabod y bobl yn dda. Gwelwyd cydberthnasau naturiol a chyfforddus rhwng y staff a'r bobl. Mae gan y bobl gydberthnasau da â'u cydbreswylwyr a'r staff sy'n rhoi cymorth iddynt.

Mae'r bobl yn gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol wedi'u trefnu a gweithgareddau a gynhelir yn naturiol fel rhan o'u trefn o ddyddiol. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaeth y bobl drefnu blodau mewn fasys a phobi. Cynhaliwyd te prynhawn i ddathlu pen-blwydd hefyd a gwnaeth y staff hwyluso gweithgareddau cymdeithasol parhaus mewn modd naturiol a hamddenol, megis gwau wrth gael eu coffi yn y bore. Dywedwyd wrthym mai canllaw yw'r amserlen sydd wedi'i chynllunio a bod gweithgareddau yn cael eu cynnal yn dibynnu ar y diwrnod a dewisiadau'r bobl.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth. Mae'r Datganiad o Ddiben yn gyfredol ac yn gywir. Ar hyn o bryd, caiff y Datganiad o Ddiben ei ddefnyddio fel Canllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth hefyd. Caiff gwaith ei gyflawni i greu canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n addas i bob unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae bwrdd sy'n cynnwys lluniau o'r staff a chynllun gweithgareddau yn ardal y dderbynfa, sydd ar gael i bawb ei weld.

Darperir dewisiadau a gwelwyd hyn yn ystod gweithgareddau, amseroedd bwyd a'r drefn o ddydd i ddydd. Caiff opsiynau bwyd eu cynnig ychydig cyn i'r pryd gael ei weini er mwyn galluogi'r bobl i ddweud beth y byddent yn hoffi ei fwyta ar y pryd. Caiff unigolrwydd y bobl ei barchu o ran eu dewis iaith. Dywedwyd wrthym am ddigwyddiad gyda chôr Cymraeg a gynhaliwyd a gwelsom fod cofnod o ddewis iaith y bobl wedi'i gynnwys yn y ddogfennaeth gofal. Dywedodd y bobl wrthym "*It's lovely here"* ac *"I enjoy my own company – I can go out from here and have my own space. The food is very good. I have joined in with some activities".*

Caiff annibyniaeth ei hyrwyddo. Mae'r amgylchedd yn galluogi'r bobl i ddefnyddio gwahanol ardaloedd o'r cartref yn annibynnol. Mae gan y bobl yr hyn sydd ei angen arnynt yn eu hardaloedd byw eu hunain er mwyn iddynt fod mor annibynnol â phosibl. Nododd adborth a roddwyd i'r tîm gan aelod o'r teulu y canlynol: *"……your team work so hard to ensure X, and all the other residents have as much integrity and independence as is possible."*

Mae cyfarpar diogelu personol ar gael i bob aelod o'r staff ei ddefnyddio yn unol â'r canllawiau atal a rheoli heintiau. Mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer atal a rheoli heintiau. Mae polisi diogelu cyfredol ar waith a chaiff hyfforddiant ei ddarparu i bob aelod o'r staff. Lle y mae galluedd gwneud penderfyniadau'r bobl yn llai cânt eu cefnogi gan y darparwr gyda gweithdrefnau a phrotocolau ar waith er mwyn sicrhau y caiff buddion gorau'r bobl eu cynnal.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu hasesu a chesglir gwybodaeth ganddynt er mwyn ceisio sicrhau bod y bobl yn setlo'n gyflym yn y cartref. Mae'r ddogfennaeth gofal yn adlewyrchu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwelsom hyn yn cael ei roi ar waith drwy gydol yr arolygiad. Caiff manylion am yr hyn sy'n bwysig i'r bobl a manylion sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant y bobl eu cofnodi a gall y staff gofal gael gafael ar y wybodaeth hon. Caiff y wybodaeth hon ei hystyried gan staff gweithgareddau ac mae gweithgareddau cymdeithasol yn cael eu cynllunio yn unol â hynny. Gwelwyd rhyngweithio ystyrlon rhwng y staff a'r bobl. Mae'n amlwg bod y staff yn adnabod y bobl yn dda a'r hyn sy'n bwysig iddynt a phwy. Mae system gweithwyr allweddol ar waith.

Cynhelir adolygiadau o'r cynlluniau personol o leiaf bob tri mis. Caiff aelodau o'r teulu a chynrychiolwyr eu diweddaru a'u hysbysu. Cadarnhaodd y rheolwr a'r arweinydd clinigol nad yw'r teuluoedd yn cael eu gwahodd yn ffurfiol i'r cyfarfod/proses adolygu ac mae hyn yn rhywbeth y byddent yn ei gynnig maes o law. Dywedodd aelodau o'r teuluoedd wrthym faint oeddent yn cael eu hysbysu a gwelsom hyn yn y system ddogfennaeth gofal electronig. Caiff lluniau a diweddariadau eu rhannu a'u gweld gan aelodau o'r teulu. Dywedodd un perthynas wrthym: "*It is so easy to keep in touch – they are always sending photos".*

Mae'r darparwr wedi recriwtio staff yn llwyddiannus ers yr arolygiad diwethaf ac mae yna dîm craidd o staff sefydledig. Er bod y staff yn brysur, maent yn ymddangos yn hamddenol a digynnwrf ac yn neilltuo amser i'r bobl a'u hymwelwyr. Gwelwyd bod y lefelau staffio fel y'i nodir yn y Datganiad o Ddiben. Dywedodd aelodau teuluoedd wrthym "*I can't fault them – there is always enough staff".*

Gwelwyd cofnodion o atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol eraill yn y cofnodion gofal dyddiol. Mae hyn yn cynnwys atgyfeiriadau at y tîm iechyd meddwl cymunedol ac ymarferwyr cyffredinol ar gyfer cynnal adolygiadau meddyginiaeth amserol. Gwelsom fod balansau meddyginiaeth yn cael ei gofnodi fel rhan o'r prosesau i fonitro'r gwaith o roi meddyginiaeth. Gwelsom nad oedd sawl cofnod rhoi meddyginiaeth wedi'u cwblhau yn unol â pholisi meddyginiaeth y darparwr. Er bod archwiliad manwl ar gael ers mis Mehefin 2022, nid chaiff archwiliadau eu cwblhau'n chwarterol yn unol â'r polisi meddyginiaeth. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.
Gwelsom system rheoli meddyginiaeth electronig newydd yn 'mynd yn fyw' ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym, "*This tool is designed to eliminate errors".* Caiff hyn ei brofi yn yr arolygiad nesaf.

## Yr Amgylchedd

Caiff y bobl ofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu a bod eu canlyniadau personol yn cael eu cyflawni.

Mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar y tirwedd yn gwella'r ardal awyr agored sydd eisoes yn ddymunol ymhellach. Gall y bobl gael mynediad i ardaloedd o'r tir yn ddiogel, i gerdded ac ymarfer corff neu i fwynhau'r ardal awyr agored. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o arddio a chynllunio ar gyfer y tymhorau sydd i ddod a chânt eu hannog i ddefnyddio'r tŷ gwydr a'r ardaloedd awyr agored.
Mae'r tŷ haf newydd yn estyniad o'r cartref lle gall pobl fwynhau treulio amser tawel yno, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau neu yn ystod ymweliadau pan fydd y triniwr gwallt yn y cartref. Gwelsom yr ystafell hon yn cael ei defnyddio ar gyfer te prynhawn i ddathlu pen-blwydd.

Mae'r rheolwr a'r staff yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas ar gyfer dewisiadau ac anghenion yr unigolyn lle y bo modd. Caiff yr ystafelloedd gwely eu personoli â dodrefn ac eitemau'r bobl o'u cartrefi eu hunain os dymunant. Roedd hyn yn amrywio o fwrdd cyfrifiadur a chadeiriau breichiau i ddillad gwely wedi'u crosio â llaw a lluniau. Gwelsom fod eitemau dodrefn newydd wedi cael eu harchebu fel rhan o'r gwelliannau parhaus a gaiff eu gwneud i'r cartref a'r amgylchedd. Roedd hyn yn cynnwys dodrefn ar gyfer yr ystafelloedd gwely yn ogystal â chadeiriau a dodrefn ar gyfer y lolfeydd cymunedol. Dywedodd perthnasau wrthym *"We are so fortunate to find this place"*

Mae archwiliadau a rhaglen o brofion cyfnodol o'r cyfarpar yn dangos bod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cwblhau fel sy'n ofynnol. Gwelsom fod y cofnodion ar gyfer gwiriadau diogelwch nwy, gosodiadau trydanol a chyfarpar codi wedi cael eu cwblhau o fewn y dyddiadau a argymhellir.
Yn dilyn ymweliad gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ym mis Hydref 2022, mae gwaith wedi cael ei gwblhau gan y darparwr. Yn dilyn ein hymweliad arolygu, dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym fod y gwasanaeth tân wedi cynnal ymweliad dilynol. Adolygwyd y gwaith y mae'r darparwr wedi'i gwblhau gan ddangos ei fod yn ddigon diogel. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y cofnodion ar gyfer profion larwm tân yn cael eu cwblhau'n wythnosol ac mae cofnodion ar gyfer ymarferion tân ar gael. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant tân yn ôl y gofyn. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u cwblhau ac ar gael i'r staff yn ôl y gofyn.

Mae'r gwasanaeth wedi cael sgôr hylendid bwyd o 5 yn dilyn arolygiad ym mis Hydref y llynedd. Mae'r ymwelwyr â'r cartref yn llofnodi cyn cael mynediad a gofynnir am ganlyniadau eu profion COVID-19 yn unol ag asesiad risg y cartref ei hun. Darperir cyfarpar diogelu personol a chânt eu gwisgo yn ôl y gofyn. Roedd y cartref yn ymddangos yn lân ac yn ffres gyda chyfleusterau golchi dwylo ar gael a stoc ddigonol ohonynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r tîm rheoli sy'n ymrwymedig ac yn effeithiol yn goruchwylio'r gwasanaeth ac maent yn ymdrechu i sicrhau y caiff gwaith parhaus o ddatblygu a gwella'r gwasanaeth ei gyflawni. Mae llinellau atebolrwydd clir a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Roedd y sylwadau a gafwyd gan y staff yn cynnwys y canlynol: *"I love it"* ac *"We can have support on the phone any day as well as hands on support throughout the week from the RI and clinical lead."*

Mae'r darparwr yn sicrhau bod nifer ddigonol o weithwyr gofal gwybodus, cymwys a medrus ar gael i ddarparu cymorth priodol i'r bobl gyflawni eu canlyniadau personol. Caiff gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwiriadau dulliau adnabod a geirdaon eu cwblhau fel rhan o'r broses recriwtio. Caiff y staff eu sefydlu yn unol â fframwaith sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn cwblhau shifftiau lle y maent yn cysgodi staff profiadol i ddechrau. Caiff hyfforddiant parhaus ei ddarparu yn ôl y gofyn, megis hyfforddiant ar Godi a Chario, Hylendid Bwyd ac Atal a Rheoli Heintiau. Yn ogystal â hyn, caiff y staff hyfforddiant wyneb yn wyneb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a nodwyd y bobl, megis hyfforddiant ar Ddementia a Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym *"We are supported to explore different avenues to managing people's needs particularly cognitive needs and we are supported to attend any training that will help".* Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio unigol o leiaf bob chwarter ac yn cael arfarniadau blynyddol. Dywedwyd wrthym, *"I have progressed and been supported with this".*

Mae systemau ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael gwasanaeth o safon, sy'n datblygu ac yn cael ei wella. Gwelwyd archwiliadau a chaiff y wybodaeth hon, yn ogystal ag adborth gan y bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff ei hystyried ar gyfer yr adroddiad adolygu ansawdd bob chwe mis. Defnyddir dadansoddiad o'r wybodaeth hon i ddangos sut y gellir gwella'r canlyniadau i'r bobl. Dywedodd aelod o deulu wrthym "*Its changed a lot but it just gets better here".*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Ni ddarperir gwybodaeth am gofnodi a rhoi meddyginiaeth yn unol â pholisi meddyginiaeth y darparwr. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/03/2023